**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

David Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

20 Ebrill 2018

Annwyl David

**P-05-804 Mae angen cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae!!**

Diolch am eich llythyr ar 23 Mawrth 2018 ynghylch y ddeiseb uchod, sydd wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Fel rhan o'i ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o grwpiau ffocws â rhanddeiliaid perthnasol. Cyfrannodd cynrychiolwyr o Chwarae Cymru at y sesiynau hyn, a thrafodwyd pwysigrwydd chwarae mewn cryn fanylder.

Gellir gweld nodyn o'r trafodaethau hyn ar wefan y Pwyllgor:

**http://abms/cy/documents/s73229/Papur%206%20-%20Trafodaethau%20grwpiau%20ffocws%20gyda%20rhanddeiliaid%2025%20Ionawr%202018.pdf**

At hynny, yn ein cyfarfod ddoe, trafododd yr Aelodau fater yr amgylchedd ffisegol a mynediad at chwarae gyda Chomisiynydd Plant Cymru.

Yn gywir,

Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565